Cyf. L

Tachwedd
1950

Rhif 11

YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Cynnwys

DANIEL OWEN: HERETIC

YR YMOFYNNYDD

Pris 6c. y mis; drwy y Post, 7s. oc. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—

Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A., Penrallt, 2, Tudor Terrace, Aberdâr.

Nodion a Marwgofion i gyrraedd y Golygydd erbyn y 15eg o'r mis.

Pwyllgor Ymgynghori—PRIFATHRO J. D. JONES, B.A., B.D.; PARCHN. S. E. BOWEN; E. G. EVANS, B.A.; E. O. JENKINS; J. ISLAN JONES, M.A.; SIMON JONES, B.A.; A. J. MARTIN, B.A.; ISLWYN PRITCHARD, B.A.; J. MARLES THOMAS, M.A.; LEWIS WILLIAMS; T. O. WILLIAMS, M.A.; a'r DR. D. J. DAVIES, Mr. W. S. JONES, M.A., M.Sc., a Mr. D. JONES.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr—

J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd", Llandysul

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha).
Selected and edited by MORTIMER ROWE, B.A., D.D. The best of the Bible and Apocrypha, in attractive and readable form. 9/6, by post, 10/3; leather with gilt edges, 18/-, by post 18/9.

SHALL WE FOLLOW KARL BARTH.
By SIDNEY SPENCER, B.A. 1/6, by post 1/8.

THE STORY AND SIGNIFICANCE OF THE UNITARIAN MOVEMENT.
By W. G. TARRANT, B.A. 1/6, by post 1/8.

UNITARIAN FAITH IN UNITARIAN HYMNS.
1/-, by post 1/2.

WE BELIEVE IN series.
Edited by G. STEPHENS SPINKS, M.A., PH.D., the set of six titles, 1/6 by post 1/8.

Send for catalogue and lists of other series—

THE LINDSEY PRESS,

14, Gordon Square, London, W.C.1.

YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL L. TACHWEDD, 1950. RHIF 11.

Nodiadau'r Golygydd.

RHAGAIR.

ERS pan ymgymerais â'r Olygyddiaeth ni chyhoeddais nemor ddim a'm bodlonodd yn fwy na'r traethawd arbennig a gyhoeddir yn y rhifyn yma. Enillodd hwn wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Caerffili 1950 fel "Traethawd Llenyddol ar destun agored heb fod dros 5,00 o eiriau, a chyfyngedig i rai heb fod mewn unrhyw Goleg." Mr. D. Tecwyn Lloyd, M.A., un o brif feirniaid Cymru heddiw oedd y beirniad a'r buddugol oedd Mr. Thomas Owen (Hesgin), 58, Dunraven Road, Sgeti, Abertawe. (Rhoddaf y cyfeiriad rhag ofn y bydd rhywrai yn teimlo y carent ddiolch iddo am ei waith). Swyddog yn y Gwasanaeth Suful oedd Mr. Owen cyn ymddeol ac y mae yn un o sgrifennwyr mwyaf adnabyddus y Wasg Gymraeg heddiw ac yntau bellach o fewn dwy flynedd i'w bedwar ugain oed. Diolchaf iddo ef ac i Gyngor yr Eisteddfod Genedlaethol am eu caredigrwydd yn caniatáu i mi gyhoeddi'r Traethawd.

HERESI.

Y mae llawer ohonom wedi sylwi ar 'heresïau' Daniel Owen wrth ddarllen ei waith, ond wrth ymdrin â'i nofelau mewn ysgol a choleg llwyddir rywsut i gerdded yn ysgafn heibio i'r pethau yma rhag ofn eu deffro a'u dangos i fyfyriwr a phlentyn. Rhyfedd o beth yw hynny o gofio fod yr 'heresïau' yma yn elfen weddol amlwg a syfrdanol mewn nofelydd Cymraeg a ysgrifennai yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Y mae'n sicr fod llawer o'r dyfyniadau a groniclir yn y traethawd hwn wedi peri gofid pur fawr i lawer darllenwr uniongred yn ei ddydd ; y mae'n sicr hefyd fod brathiadau miniog Daniel Owen wedi difa llawer o'r ysbryd cul rhagfarnllyd a fodolai'n helaeth yn ei amser a wedi hynny.

A ydych wedi gofyn erioed pa beth a olygir wrth y gair heresi? Fel y gwyddom daeth yn boblogaidd o'i arfer gan fwyafrif gormesol i fwrw anfri a dirmyg ar syniadau'r neb a anghytunai â hwy. Boed feddyginiaeth, gwleidyddiaeth, economeg, neu grefydd nid oes hawl gan y dyn bach ddweud ei farn ac anghytuno â'r dyn mawr heb gael ei alw yn heretic. A phe gofynnech am ystyr y gair heresi, ateb naw o beb deg fyddai—"Camgymeriad," "Celwydd," neu "gwyro oddi ar ffordd gwirionedd." Dyna a dybiai'r dynion mawr uniongred a ddywedent pan daflent eu ysgorn ar Undodiaeth a'i galw'n *heresi*. Ond da atgofio pobl felly nad dirmyg a daflent arnom eithr hwy yn eu dallineb a roddent i ni'r deyrnged fwyaf posibl. O'r Groeg y daw'r gair heresi ac ystyr y gwreiddiol hairesis yw *dewis*, a heresi felly yw dewis un peth neu syniad neu gred a gwrthod eraill. A chan mai dewis y lleiafrif ydyw heresi y mae yn ddewis dewr. Pa deyrnged well i enwad bychan na'i fod wedi dewis yn ddewr! Yn wir buasai Hereticiaid yn well enw arnom o lawer nac Undodiaid oblegid fe aeth yr hen ddadleuon diwinyddol a'n bedyddiodd yn Undodiaid i'r cysgod i raddau helaeth. Dadleuon cyfnod oeddynt. Eithr ymhob cyfnod ac oes rhaid gwneud y *dewis dewr*—boed dros Undod Duw neu ryddid barn neu frawdoliaeth dyn neu unrhyw wirionedd arall, ac y mae angen mawr bob amser am hereticiaid iach. Y mae rhai pobl yn methu'n lân a deall nad barn arbennig yw Undodiaeth eithr ffordd arbennig o edrych ar bob barn a chred, ffordd sy'n caniatau ac yn cymell dewis y gwell a'r uwch fel y daw i'r golwg ac i gyrraedd o hyd.

Dyna paham y mae ein gwaed yn cynhesu dros Ddaniel Owen yr Heretic, *y gŵr a ddewisodd yn ddewr*!

"No blazoned banner we unfold,
One charge alone we give to youth -
Against the sceptered myth to hold
The golden heresy of truth." (*George Russel*).

"Ond hyn yr ydwyf yn ei gyffesu i ti, mai yn ôl y ffordd y maent hwy yn ei galw yn heresi, felly yr wyf fi yn addoli Duw fy nhadau."
(Act. xxiv., 14).

At Adolygwyr ac eraill—Argreffir nifer fechan o gopïau ychwanegol o'r rhifyn yma a byddant i'w cael o Wasg Gomer, Llandysul.

Daniel Owen : Heretic.

Gan THOMAS OWEN (*Hesgin*).

RHAGAIR.

HERETIC, sylwer : nid anffyddiwr. Yr oedd Daniel Owen yn uniongred ar bwnc bodolaeth Duw, ac efallai ei fod yn ystyried anffyddiaeth y pechod mwyaf erchyll a dybryd o'r cwbl. Ebr ef am Cain, y llofrudd : "Nid oedd Cain yn anffyddiwr, er cynddrwg oedd."[1]

Ysgrifennwyd llawer am Daniel Owen fel nofelydd : ei ddawn ddiguro i ddarlunio cymeriadau, i bortreadu'r gymdeithas y magwyd ef yn aelod ohoni, etc., etc. Ond, hyd y sylwais i, ni ddarfu i neb ddweud fawr am ei syniadau hereticaidd ynghylch diwinyddiaeth a chrefydd, nac ynglŷn â materion cymdeithasol.

Yr oedd Daniel Owen yn *humorist* ; ac y mae dweud fod dyn yn *humorist* bron yn gyfystyr â dweud ei fod yn heretic : er enghraifft, Sydney Smith a'r Deon Swift, ym Mhrydain, a Mark Twain yn yr Unol Daleithiau. Ond yr oedd gan Daniel Owen un fantais, o leiaf, ar Mark Twain—nid oedd ef yn briod ; nid oedd ganddo, fel yr oedd gan Mark, druan, wraig lygadlym ar ei aelwyd, yn "golygu" ei waith yn fanwl, yn lliniaru pigiad llawer o'i ffraethebion, ac yn ei orfodi i adael rhai allan yn gyfangwbl. Dyna un o fantesion bod yn hen lanc, neu dros briodi merch nad ydyw yn deall yr iaith y mae ei gŵr yn llenydda tipyn ynddi !

Efallai mai heresi bennaf Daniel Owen ydoedd iddo ysgrifennu nofelau o gwbl. Cofier mai yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg yr ysgrifennodd ei holl waith llenyddol—yn cynnwys ei bedair nofel ; ac yr oedd rhagfarn gref yn erbyn y nofel yng Nghymru yr adeg honno. Gwyddai'r nofelydd hynny'n burion. Ebr ef :

> "A gallaf yn hawdd ddychymygu am hen flaenor ymneilltuol cywir, crefyddol, a duwiol, gyda Phererin Bunyan yn agored ar ei lin, â'r dagrau yn ei lygaid wrth ei ddarllen, ac, ar yr un pryd yn edrych—a hynny yn eithaf gonest—ar nofelydd Cymreig fel dyn yn dyweyd celwydd i foddio ynfydion."[2]

Ac at *Bererin Bunyan* gallasai ychwanegu *Llyfr Iona* a *Llyfr Rwth* Ond i grefyddwyr Cymru yn ei oes ef "gwir bob gair" oedd cynnwys y ddau lyfr a enwais. Gan ddarfod i amryw—Saunders Lewis ac eraill draethu'n helaeth ar yr agwedd hon, gadawaf hi heb ond ei chrybwyll wrth basio.

Ei Heresiau Diwinyddol a Chrefyddol.

Er cryfed y rhagfarn yn erbyn y nofel, nid ydoedd ond dibwys o'i chymharu â'r rhagfarn yn erbyn syniadau anuniongred a "chyfeiliornus" am ddiwinyddiaeth a chrefydd. Yr oedd mwyafrif mawr crefyddwyr Cymru y pryd hwnnw—yn wŷr llên a lleyg—mor uniongred â charreg filltir, a gwae i'r neb a wyrai oddi ar lwybr Piwritaniaeth ac uniongrededd. Ond gall bardd a nofelydd ddweud pethau "rhwng difri' a chwarae" y byddai yn "berygl bywyd" i awdur traethawd neu ysgrif roi mynegiant iddynt. Cymerodd Daniel Owen fantais ar y rhyddid hwn.

Ceir enghraifft o'i ogwydd tuag at dipyn o heresi yn gynnar yn ei yrfa lenyddol. Yn ei bregeth ar Cain dywaid :

> "Gwybiad a chrwydriad oedd y felldith a gyhoeddwyd arno ; ond yr hanes cyntaf a gawn am dano ar ôl hyn ydyw, ei fod yn adeiladu dinas. . . . Y tebygolrwydd ydyw na chariwyd allan ond y rhan flaenaf o'r felldith. Diammheu iddo ganfod yn fuan nad oedd ffarmio yn talu, ac iddo droi yn adeiladwr. Ond am y ' gwibiad a'r crwydriad ' nid ydym yn clywed son mwy."[3]

Yr oedd Daniel Owen wedi sylweddoli ddarfod i awduron Llyfr Genesis (a'i olygydd neu ei olygyddion) fod yn anghofio neu'n ddiofal wrth ddweud hanes Cain, ac awgrymodd hynny'n gynnil i'w wrandawyr yn ei ddull chwareus ei hun.

Ond yn y nofelau y mae'r awdur yn magu mwy o wroldeb. Sylwer ar y dyfyniad canlynol o'r *Dreflan*, ei nofel gyntaf. (Mr. Pugh sy'n siarad â Jim Price, y *street arab*, a oedd yn chwarae marblis—ar y Sul) :

> " 'Wyt ti ddim yn meddwl fod chware *marbles* ar y Sul yn ddrwg ?"
>
> "Nag ydi, os gnewch beidio *chetio*," oedd yr ateb.
>
> "O ydi, 'machgen i," ebe Mr. Pugh ; "Plant drwg sydd yn chware *marbles* ar y Sul ; ac yr wyt yn gwybod p'le mae plant drwg yn myn'd, on'd wyt ti ?"
>
> 'I ardd Mr. Phillips i ddwyn 'fale ; ond fydda i byth yn myn'd," oedd yr ateb diniwed.

Gwnaeth Mr. Pugh gynnig arall arni. Ebr ef :

> "Ie, ond p'le mae nhw'n myn'd ar ôl marw ?"
>
> "Siân Jones deyd i'r tân poeth ; nhad yn deyd oes ne'r un tân poeth."[4]

oedd ateb annisgwyliadwy Jim. Mae'n amlwg fod Daniel Owen o'r un farn â Jim ynghylch chwarae ar y Sul, oblegid rhydd y geiriau hyn yng ngenau Rhys yn *Rhys Lewis* :

> "Methwn a deall os oedd Iesu Grist mor hoff o blant bychain eg y dywedai fy mam ei fod, pa fodd yr oedd efe mor *exact* ac mor wrthwynebol i mi gael chware ar y Sul."[5]

Ac eithaf peth fyddai i swyddogion ac aelodau "Cymdeithas Cadwraeth y Saboth" gofio nad ydyw'r Deg Gorchymyn yn gwahardd *chwarae* ar y Saboth.

Nid oedd Daniel Owen yn edrych hyd yn oed ar anffyddwyr fel rhai dwl a diddysg. Dywaid Mr. Pugh am Ismael (tad Jim Price) :

"Yr ydw i'n gwel'd na thala i ddim i fyn'd i siarad â dyn fel Ismael—dyn sydd wedi darllen tipyn. Mae eisio dyn â rhywbeth yn ei ben o i fyn'd at y *sort* yna."[6]

Ymhellach ymlaen yn yr un llyfr cyfeirir at Ismael â'i "lygaid duon a deallgar"[7] yn dyfod i mewn i'r *White Horse*. Ceir sylw i'r un perwyl gan Abel Hughes yn *Rhys Lewis* :

". . . fel rheol nid ymhlith y dosbarth anllythrenog, anwybodus y cei di ammheuwr, ond ymhlith y dosbarth darllengar, myfyrgar."[8]

Hyd y gwn i, Daniel Owen, yn ei bortread o Ismael, ydyw'r awdur Cymraeg cyntaf a roes ddarlun gweddol deg o anffyddiwr. Do, do, fe droes Ismael at grefydd yn ddiweddarach ; ond "waeth befo," chwedl Wil Bryan.

A dyna Bob—un o gymeriadau hoffusaf a dewraf y nofelydd—un a oedd "yn ymbalfalu am Dduw y gwirionedd," ac un a wyddai beth oedd "colli nosweithiau o gysgu mewn disgwyliad poenus ac awyddus am y goleuni"[9] ydoedd yntau. Ac mae'n amlwg fod mwy o'r nofelydd ei hun yn Bob nag odid yn neb o'i gymeriadau eraill Yn yr ymgom rhwng Bob â'i fam, wedi iddo achub cam Rhys, a rhoi eithaf cwrbits* i'r Hen Sowldiwr, ceir y brawddegau hyn. Ebr Mary Lewis :

"Y mae'r gair yn deyd yn bendant, 'Nid yn darawydd'."

"Adnod i esgob, ac nid i golier ydyw honyna, mam," ebe Bob.[10]

Nid oedd gan ei fam well ateb na, "Bob, mae dy galon wedi caledu." Yr oedd Mary Lewis, er ei holl wybodaeth o'i Beibl, wedi ei chornelu am unwaith. Ac mewn gwirionedd yr oedd sylw Bob yn ergyd farwol i'r ffwndamentaliaid a gredai fod pob brawddeg yn y Beibl yr un mor "ysbrydoledig" â'r llall, ac y gellid eu defnyddio i "brofi" pob pwnc, p'un a oedd unrhyw gysylltiad rhyngddynt â'r mater tan sylw a'i peidio. Gellid dyfynnu llawer rhagor o'r syniadau a rydd Daniel Owen yng ngenau Bob, ond rhaid cadw o fewn y terfynau a ganiateir i'r traethawd hwn. Yr oedd gan Gwili ddarlith ddiddorol ar "Bob," ac onid heretic y cyfrifid Gwili gan geidwaid yr athrawiaeth yn ei ddydd ? Ac oni ddioddefodd ef lawer am iddo feiddio dweud tipyn o'r gwir am y Beibl—yn Gymraeg ?

Ni hoffai Daniel Owen y rhai a dueddai i alw sylw at eu crefydd-older. Dyma frawddeg sy'n awgrymu hynny'n bur blaen :

"Gan ei fod [Benjamin Prys] yn ŵr o synwyr cryf, ni byddai

*Crosfa.

byth yn gwneyd arddangosiad cyhoeddus o'i deimladau crefyddol."[11]

Âi ei wraig, Becca, gam ymhellach. Dyma a ddywedodd hi ar un achlysur :

"Mae sôn am grefydd a'r byd arall yn burion yn 'u lle ; ond dydi'r Brenin mawr ei hun, goelia i, ddim yn dysgwyl i ni sôn am danyn nhw o hyd o hyd ; ai ydi o, Mr. Pugh ?"[12]

Yr oedd Daniel Owen wedi gweled "Diwygiad '59," a "Diwygiad Richard Owen" yn yr 1880au. Pe cawsai fyw, diddorol fuasai cael ei farn am "Ddiwygiad Evan Roberts," 1904—05.

Ond i ddyfod at bethau trymach "y ffydd." A oedd Daniel Owen yn credu mewn cosbedigaeth dragwyddol ? Y mae lle cryf i amau hynny. Ceir o leiaf dri chyfeiriad at yr athrawiaeth hon yn ei lyfrau :

(*a*) Benjamin Prys, ar ei wely angau, wedi i "rywbeth rhyfedd" ddyfod trosto, yn mynd, yn ei feddwl, i uffern. Ebr ef :

"Lle garw sydd yno, Mr. Pugh. Byddaf yn meddwl nad oes olygfa fwy prudd i'w chael ar y ddaear na gweled hen ŵr bonheddig o deulu uchel wedi myned yn dlawd a charpiog. Ond beth ydyw hyny pan feddyliom am hen foneddigion y nef wedi syrthio i dlodi erchyll y pwll diwaelod ! Druain oeddan nhw ! Wyddoch ch'i beth, Mr. Pugh, yr oedd gen i flys mawr gweddïo drostyn' nhw wrth feddwl am danynt neithiwr. . . . Wyddoch ch'i beth ddaeth i'm meddwl i, Mr. Pugh ? Tipyn o ynfydrwydd oedd o, mi feddyliwn. Dyma fo : y buaswn yn dymuno pe buasai y Brenin mawr yn dyweyd wrthyf, ' Benjamin, yr wyf yn rhoddi gorchymyn i ti fyned i'r lle ofnadwy yna am yspaid, i gyhoeddi iachawdwriaeth a maddeuant pechodau i'r creaduriaid truenus yna, ar yr ammod iddynt edifarhâu a chredu yn fy Mab.' *Dear me*, oni fuasai hi yn neges ardderchog, Mr. Pugh ? A fuasent yn credu feddyliech ch'i ? Ond rhyw feddwl gwirion oedd o. Cosbedigaeth dragwyddol ydyw hi, onidê ? Druain ydyn' nhw hefyd !"[13]

(*b*) Yn ystod yr ymgom rhwng Bob â'i fam, wedi i Bob gael ei dorri allan o'r seiat, ag yntau yn gwrthod yn bendant syrthio ar ei fai, dyfynna Mary Lewis eiriau "yr hen Ficer" :

"I'r rhai ffyddlon edifeiriol,
Mae Duw'n ffyddlon ac yn rasol ;
Ond i'r cyndyn câs gwrthnysig,
Mae Duw'n greulon ac yn ffyrnig."[14]

Ond etyb Bob :

"Pob parch, chwedl chwithau, i'r hen Ficer ; ond dydw i ddim yn credu fod Duw yn ' greulon ac yn ffyrnig ' un amser, llawer llai wrthyf fi am yr hyn a wnês i'r Hen Sowldiwr. Mae y Bibl yn fy nysgu i mai Duw cariad yw."[15]

(*c*) Yn y sgwrs rhwng Robert Wynn â Gwen (wedi i Robert ddweud wrthi iddo beidio rhoi William, Penygrosffordd, yn llaw'r gyfraith wedi iddo ei ddal yn "dwyn defaid," am nas gallai "fedryd cysgu yn ei wely" pe cawsai William "ei dransportio"), dywaid Gwen :

"O diar, Robert Wynn, bach, mae o'n beth *sad* i feddwl am dano, y'ch clywed ch'i yn deyd na f'asech ch'i ddim yn gallu cysgu yn eich gwely bydase ch'i wedi gyru un o'ch cymydogion i'r dransport, a hwnw yn perthyn dim byd i ch'i ; a Duw yn gallu bod yn gyfforddus a miliynau o'i *blant* o wedi eu gyru i'r dransport tragwyddol."[16]

Nid oedd gan Robert Wynn ddim i'w wneud ond apelio at y Gair :

"Does gynon ni, wyddost, ddim i wneud ond myn'd yn ôl y Gair. Os ydi'r Gair yn dweyd, fel y mae o, fod torf ddiri' yn myn'd i golledigaeth, does gynon ni ddim i'w wneud ond ei gredu."[17]

Fe welir fod y pwyslais yn newid, ac yn mynd yn fwy pendant yn y tair enghraifft a enwais : "rhyw feddwl gwirion" oedd y syniad am roi cyfle i'r colledigion i edifarhau i Benjamin Prys ; i Bob yr oedd meddwl am Dduw cariad fel un creulon a ffyrnig yn beth anhygoel ; ac yn sylwadau Gwen ceir awgrym nad ydyw cosbedigaeth dragwyddol yn beth tadol, rhesymol, na chyfiawn.

Efallai fod Daniel Owen yn credu mewn rhyw fath o gosb am bechod, ond gwyddai fod y gred mewn cosbedigaeth dragwyddol yn graddol wanhau hyd yn oed y pryd hwnnw. Yn y bennod gyntaf o *Enoc Huws* ceir y brawddegau hyn :

"A oes y fath le ag uffern yn bod yn y dyddiau hyn ? Arferid sôn am le felly er's talwm, ond anfynych y clywir crybwylliad am y fath le yrwan, oddigerth gan ambell un go hen ffasiwn."[18]

A chymryd popeth i ystyriaeth ni allaf i fod yn sicr yn fy meddwl fod Daniel Owen yn credu yn yr athrawiaeth gysurlawn a Christnogol o gosbedigaeth dragwyddol. Cristnogaeth ydyw'r unig grefydd sy'n coleddu'r gred hon ; ac y mae'r rhan fwyaf o'r enwadau, erbyn hyn, yn bur anfodlon i'w harddel ; yr eithriadau ydyw'r Pabyddion a Byddin yr Iachawdwriaeth. Y mae "uffern" mor anhepgorol iddynt hwy ag ydoedd Tŷ'r Arglwyddi i'r Rhyddfrydwyr cyn 1910.

A'r diafol wedyn. A oedd Daniel Owen yn credu mewn diafol personol ? Digon prin. Y rhan amlaf, pan gyfeiria at y diafol gwna hynny rhwng difri' a chwarae, megis. Yn sicr, nid "llew rhuadwy" ydoedd y diafol iddo. Awgrymodd Wil Bryan i Rys mai'r ffordd orau i Bob, pan ddelai ei achos o flaen y seiat, fyddai bod "yn edifeiriol, a 'run fath â William y glo yn rhoi y bai ar Satan, ac yn deyd na naiff o byth eto,"[19] y byddai popeth yn iawn. Ar y tudalen nesaf yn *Rhys Lewis*, wrth gyfeirio at William y glo, ceir, gan Rhys, y sylw awgrymiadol hwn :

"... pan ddeuai y cynhauaf, byddai William yn dueddol i yfed i ormodedd, ac yna diarddelid ef. Maddeuwyd iddo lawer trosedd am y credid *nad oedd yn hollol fel dynion eraill.*"[20]

Myfi sydd wedi italeiddio.

Pan aeth Nansi'r Nant i'r Ficerdy i ofyn am ewyllys da Mr. Jones, dywedodd y Ficer "am iddi fynd i'r diawl ar yr hwn yr oedd hi yn byw. Atebodd Nansi ei fod yntau yn byw ar yr un gŵr, a phan y byddai y diawl farw y byddai y Person allan o waith."[21] Wel ! ! !

Yn *Y Siswrn* ceir yr englyn cellweirus hwn i "Satan" :

"Yn ei gut pa sut mae Satan—yn byw
Ac yn bod mewn brwmstan ?
Mi ofynais i'm fy hunan—
Be dae'r diawl 'n rhoi'r byd ar dân."[22]

Beth am effeithiolrwydd gweddi ? Ceir gan Daniel Owen sylwadau pur awgrymiadol ar y pwnc hwn. Yn ei ysgrif ar "Ddewis Blaenoriaid" dywaid :

"Nid ydym yn anghofio y cymerir yn ganiataol fod yr eglwys yn gwneyd ei dyledswydd trwy weddïo am gyfarwyddyd, a bod rhyw arweiniad Dwyfol i'w ddysgwyl ganddi er mwyn syrthio ar y dynion da eu gair. Ond ar yr un pryd nid allwn gau ein llygaid ar y ffaith fod llawer o gamgymeriadau yn cael eu gwneyd yn yr amgylchiadau hyn."[23]

Dyna farwolaeth mam Jim Price wedyn :

"Hyd y noswaith y bu hi farw, credai Jim yn ddiysgog y gwnai wella. Yr oedd Siân Jones a Mrs. Pugh wedi ei ddysgu i weddï, ac i gredu y gwnai Duw wrando gweddi. Gweddïai Jim ei hun, ac yr oedd yn gwybod fod Siân Jones a Noah Rees yn gweddïo ; ac nid ammheuodd am eiliad na wrandewid hwynt. Ond er yr holl weddïo, bu ei fam farw. Nis gallasai Jim weled cysondeb yr amgylchiad â'r addysg a dderbyniasai. Yr oedd wedi ei ddyrysu yn lân, ac ni fynai ei gysuro. Ceisiodd Mr. Pugh ei ddyddanu ; ond gyrai Jim yr hen foneddwr i'r wàl yn union trwy ofyn,

"Pam na fase Duw yn gwrando, a fi Siân Jones a Mr. Rees wedi gwddïo ? Be ydi iws gwddïo os na neiff o wrando ? Mistres yn deyd, Duw yn gwrando ; fynte ddim yn gwrando."[24]

Gwnaeth Miss Pugh hefyd ei gorau i gysuro Jim, ond "y gorchwyl caletaf a gafodd y foneddiges ieuanc yn ei bywyd oedd cadw Jim rhag meddwl yn galed am Dduw." A pha ryfedd ! Ond rhag i'w ddarllenwyr feddwl ei fod yn mynd yn rhy bell yn y cyfeiriad hwn, gwnaeth yr awdur gyfaddawd â hwy trwy wneud i Benjamin Prys gyfansoddi "cân hirfaith" i Jim. Dyma'r pennill olaf ohoni :

"Gweddïai Jim am i'w fam wellhàu,
A chredai y cai ei wrando ;
Gweddïai Siân Jones, a rhwng y ddau
Ni phetrusai na wnaent lwyddo ;
Bu farw ei fam ! ond gofalodd Duw
Am fam i Jim yn Mrs. Puw,
A mam ragorol oedd honno."[25]

Cyfeiria'r awdur at yr un pwnc mewn amryw o leoedd eraill. Dyma dri :

(*a*) Wrth gyfeirio at ei fam, dywaid Rhys : "Diammheu genyf fod dy weddïau ar fy rhan wedi eu hateb i ryw fesur."[26] I *ryw fesur* !

(*b*) Wedi i'r eglwys roddi "yr arwydd" i ddiarddel Bob, dywaid Rhys hyn :

"Y fynyd hono, plygodd Abel Hughes ar ei liniau, ac mewn gweddi gweddïodd, os gweddïodd neb erioed. Bûm yn synu ganwaith ar ôl hyn na fuasai ei weddi ar ran Bob wedi ei hateb."[27]

(*c*) Pan benderfynwyd cadw cyfarfod gweddi yn nhŷ Nansi'r Nant, nid oedd gan Beti Wynn ddim ffydd y gwnai hynny "les i Nansi." Nid oedd ei merch yn cytuno â hi. Ebr Elin :

"Heb ffydd fedrwn ni wneud lles i neb, ond pe byddai genym ffydd gymaint a gronyn o hâd mwstard, ni a ddywedem wrth y mynydd hwn—' Symunder di i ganol y môr '."[28]

Atebodd Beti :

"Ond a âi o i ganol y môr, er iti ddeyd wrtho ydi'r cwestiwn, fel y deydodd y dyn hwnw."[29]

Cynhaliwyd y cyfarfod gweddi ; Beti Wynn a oedd yn iawn ; ni wnaed ddim "lles" i Nansi !

Beth am y "byd arall ?" Pur amhendant ydyw Daniel Owen ar y pwnc hwn. Mynd i "gapel mawr Iesu Grist," fel y gallesid disgwyl, a wnaeth Seth. Ond pan fu farw ei mam syniad annelwig iawn a oedd gan Susi Trefor am y "byd tragwyddol," a thaith ei mam iddo. Ebr hi :

". . . Lle mae hi 'rwan ? . . . Yn y byd mawr tragwyddol ! Lle mae'r byd tragwyddol ? Ydio'n mhell ? Ydi hi wedi cyrhaedd yno ? Ddaru rhwfun dd'od i'w nol hi, i ddangos y ffordd iddi ? neu a ydyw ei hysbryd hi yn crwydro ac wedi dyrysu mewn *space* ? Fydd hi'n crwydro, tybed, am filoedd o flynyddoedd cyn d'od o hyd i'r byd tragwyddol" ?[30]

"Ond syniadau Susi ydyw y rhai yna," ebe rhywun, "ac nid teg eu priodoli i Daniel Owen." Wel, beth am y sylwadau canlynol o'i eiddo ef ei hun ? Wedi sôn amdano'i hun yn "chwarae cast" â'i gydwybod, dyma a ddywaid :

"Rhaid i mi, a phob dyn gonest, gydnabod mai hi yw y frenhines, gŵg neu wên yr hon . . . nis gallwn ei anwybyddu.

Pob dyn gonest, meddaf ; ac wrth hyny y meddyliaf—pob dyn sydd wedi ymddeffroi o gysgadrwydd anystyriaeth i ymholi o ba le y daeth ? i ba le y mae yn myned ? beth ydyw neges a dyben ei fodolaeth ? beth ydyw ystyr yr hyn a wêl o'i amgylch ? ai breuddwyd ai dammeg ydyw ? beth ydyw ef ei hun, ai math o beiriant bwyta ? ai canwyll a lysg i lawr i'w socet rai o'r dyddiau nesaf ? ai ynte seren i fyned o'r golwg i oleuo ar ryw *hemisphere* arall ?"[31]

Fe welir nad oes sôn am nefoedd nac uffern yn yr un o'r ddau ddyfyniad : dim ond rhyw holi a dyfalu am yr hyn sydd tu draw i'r bedd. Rhywbeth yn debyg oedd cyflwr meddwl y nofelydd pan ydoedd yn ysgrifennu *Gwen Tomos*, ei nofel olaf. Mewn llythyr at Y Llyfrbryf, dyddiedig Hydref 3, 1893 (ddwy flynedd cyn ei farw), dywedodd :

"Rhyngoch chwi a fi—nid wyf eisiau ei adrodd—mae arnaf ofn drwy fy enaid fod y *cancer* arnaf. Mae hyny yn difa pob cysur sydd yn y byd i mi, ac yr wyf yn isel iawn fy yspryd. Gwelaf fy hun yn marw fel Cynfaen, druan, yn y dirdyniadau mwyaf, ond heb ei hyder hapus ef."[32]

Ie ; "*heb* ei hyder hapus ef." Er ei fod yn wael ei iechyd ac yn isel ei ysbryd, nid oes fawr arwydd o hynny ar y nofel. Nid ydyw ei ysmaldod a'i arabedd lawn mor amlwg, efallai, yn *Gwen Tomos* ag yn y nofelau eraill. Ond hyd yn oed yn y nofel hon, â mor bell a siarad yn gellweirus am "yr arfaeth." Yn y sgwrs rhwng Robert Wynn, Pantybuarth, â Beti ei wraig ynghylch y posibilrwydd fod Lewis Jones, y pregethwr, yn meddwl am briodi eu merch, dywedodd Robert nad ydoedd "yn hidio rhw lawer am ei athrawiaeth o . . ." Â'r sgwrs ymlaen :

"Ac os na ffeindia i fod o'n iach yn y ffydd ar arfaeth ac etholedigaeth gras, ro'i byth y nghynsent i Elin ei briodi. Dene'r gwir i ti, Beti."

"Bedach ch'i feddwl wrth arfeth, Robert ?" ebe Beti.

"Dwyt ti ddim wedi dod i'r oed yma, tybed, Beti, heb wybod beth ydi arfaeth ?" gofynai Robert "Arfaeth ydi rhagfwriadau tragwyddol a doeth y Bôd Mawr gyda golwg ar bobpeth sydd i gymeryd lle mewn amser a byth, a dydio ddim o fewn gallu dyn, pryfyn gwael y llawr, i newid dim ar fwriadau yr Anfeidrol Doeth, neu mi fydde'n ddoethach na'i Grëwr."

"Felly," ebe Beti, "os ydio yn arfaeth y Bôd Mawr i'r eneth briodi Lewis Jones, fedrwch chi, Robert bach, mo'i stopio."

"Hy," ebe Robert, a gwnaeth Elin ryw drwst efo'r llestri, ac aeth i mewn i'r gegin pan oedd ei mam wedi cael y goreu ar yr *argument*, a cyn i'w thad gael amser i ddod allan o'r anhawsder, oblegyd gwyddai Elin ond i'w thad gael amser y byddai yn siwr o fod yn goncwerwr."[33]

Ond gofalodd Daniel Owen am beidio awgrymu sut y delai Robert Wynn yn rhydd o'r rhwyd.

Rhagluniaeth, wedyn. Pan ddywedodd Rhys wrth Thomas Bartley y byddai'n rhaid iddo "ymddiried i Ragluniaeth" oni chai ei "alw i bregethu am fis neu ddau" wedi iddo fynd i'r coleg, ateb Thomas ydoedd : "Weles i rioed ddaioni o'r stori ene" ; ac aeth ymlaen i adrodd hanes un a oedd "yn dipyn o grefyddwr, hefyd," a "fydde'n wastad yn sôn am ymddiried i Ragluniaeth. A wyddost di b'le bu o farw ? Yn *Workhouse* Treffynnon ! *poor fellow* !"[34]

Wedyn, ceir Capten Trefor, wrth geisio cysuro ei wraig yn yr argyfwng ariannol a ddaethai arno, yn sôn am gyfnod "pryd y golygid fod Rhagluniaeth yn ffafrio duwiolion."[35]

Efallai y bydd rhywun yn barod i feddwl fy mod wedi anghofio yr hyn a ddywaid Daniel Owen am gynnwys pregethau y Parch. Obediah Simon. Y mae'r adran sy'n delio â'r mater hwnnw yn rhy faith i'w dyfynnu'n llawn yma. Dywedir fod Mr. Simon wedi

> "traethu gryn lawer ar *evolution*, negyddiaeth, ac anwybodyddiaeth, ac wedi sôn tipyn am agnosticyddiaeth, gyda'r amcan clodwiw o barotoi a chadarnhau meddyliau ieuenctyd Bethel ar gyfer y llanw dinystriol oedd ar fin gorchuddio Cymru grefyddol. Yr oedd efe hefyd wedi gosod o'u blaenau—gyda thipyn o fedr hefyd—wrthddadleuon annghredwyr, ac wedi eu cnocio yn dipia mân. . . . Mae yn amheus ai doeth yn Mr. Simon oedd sôn cymaint am wrthddadleuon annghredwyr wrth bobl Bethel, canys ni wyddai un o bob haner cant o honynt fod y fath wrthddadleuon wedi bod yn blino ymenydd neb erioed. . . . Gyda'r amcanion goreu, yn ddiamheu, yr oedd Mr. Simon wedi arfer ei holl ddawn i berswadio gwŷr ieuainc Bethel i beidio darllen y llyfr yma a'r llyfr acw. Nid oeddynt, cyn hynny, erioed wedi clywed hyd yn nod enwau y llyfrau, ac aeth dau neu dri o honynt ar eu hunion i ymofyn am danynt."[36]

Ac, fel moeswers, rhydd yr awdur y stori ganlynol (sydd yn glasur o'i bath) yng ngenau Didymus. Yr oedd "anerchiadau a chynghorion Mr. Simon i'r ieuenctyd," meddai Didymus—

> "yn ei adgofio am yr ysgolfeistr, yr hwn, cyn gollwng y plant o'r ysgol un prydnawn a ddywedodd wrthynt —' Blant, mae genyf eisiau rhoi cyngor i chwi, ac yr wyf yn gobeithio y gwnewch wrando arnaf ac ufuddhau ; a dyma fo —Cymerwch ofal wrth fyn'd adref o'r ysgol i beidio rhoi ceryg mân yn nghlustiau y mulod a welwch yn pori ar ochr y ffordd. Mae y fath beth yn greulon, ac yn greulon iawn, a gofalwch na chlywaf fod neb o honoch yn euog o'r fath weithred ysgeler '."[37]

Ni chlywsai'r plant am y tric o'r blaen, a'r mul cyntaf a welsant . . . !

Wel ; beth amdani ? I gychwyn, gellir dweud nad ydyw'r awdur yn condemnio'r syniadau y rhybuddiai Mr. Simon ieuenctid Bethel rhagddynt *fel y cyfryw*. Nid ydyw'r cyfeiriad cyffredinol ac amhendant at "y llanw dinystriol oedd ar fin gorchuddio Cymru

grefyddol" ond *concession* i'r "rhai gweiniaid" ymhlith ei ddarllenwyr. Ymddengys mai bai Mr. Simon ydoedd ei fod yn defnyddio moddion anghyfaddas i ddwyn y wybodaeth newydd i sylw ei aelodau, ac yn enwedig ei fod yn galw sylw y rhai difeddwl ati. Ond onid tipyn o eironi ydyw'r cwbl? Yr oedd yr awdur, trwy roi tua dau dudalen i ddweud y stori, ac i feio Mr. Simon yn y mater hwn, yn euog o'r un camwedd (?); a gwyddai hynny'n burion. Fel y dangoswyd eisoes, ceir amryw sylwadau yma ac acw yn y nofelau a ddengys mai barn Daniel Owen ydoedd mai rhai o "synnwyr cryf" a'r rhai "deallgar" a fyddai'n debyg o goleddu syniadau newydd ac anuniongred.

Ar y llaw arall, cyfeiria'r nofelydd at ddosbarth o grefyddwyr nad "ydynt wedi clwyfo eu cydwybod gyda gweithredoedd anfad, nac wedi darllen na meddwl digon i greu anesmwythdra ac ammheuon, ac felly y mâent yn lled hapus." Yn canlyn y sylw hwn ceir y frawddeg hiraethlon hon: "I mi y mae rhyw brydferthwch mawr yn perthyn i'r dosbarth hwn o bobl; ac ar adegau bûm yn cenfigenu wrth eu sefyllfa."[38]

Ond yr oedd i'r dosbarth hwn ei beryglon, er hynny. Ymhellach ymlaen yn y llyfr dywaid (Rhys):

> "Pe buasai ein rhieni cyntaf heb fod mor ddiniwed, mae yn gwestiwn genyf a fuasai y diafol wedi talu cymaint o sylw iddynt."[39]

Yr oedd Daniel Owen wedi cael cipolwg hefyd, o bell, ar yr hyn a elwir (neu a elwid, yn lled ddiweddar) yn "Efengyl Gymdeithasol." Yn wir, efallai mai'r condemniad llymaf ar grefyddwyr ei oes ydyw'r frawddeg a rydd yng ngenau Susi:

> "Dydw i ddim yn credu mai snecio i'r nefoedd, a gadael i bawb arall gymeryd 'u siawns ydi'r ffurf ucha ar grefydd, os ydw i'n dallt be ydi crefydd."[40]

Ac yr oedd gan Daniel gryn feddwl o Susi, neu ni fuasai yn gadael i Wil Bryan ei phriodi. Dywaid T. J. Morgan yn bendant mai "datgan sylwadau'r awdur ei hun" yr oedd Susi yn y frawddeg a ddyfynais, fel yn y sylw "fod gormod o hunan mewn pobol dduwiol."[41]

Rhoes Daniel Owen ei farn derfynol am y dyn uniongred yn yr englyn bachog canlynol:

> "Ceidwad y ffydd! pocedog,—tremia 'lawr,
> Trwm ei lais och'neidiog;
> Nid oes well ŵr fflangellog
> A'i 'winedd o ddanedd ôg."[42]

Ei Heresiau Cymdeithasol.

Soniais yn barod am ei hersi yn ysgrifennu nofelau o gwbl ; felly, ni raid dweud rhagor am hynny.

Rhyw ymbalfalu fel nofelydd yr oedd Daniel Owen yn *Y Dreflan*. Wedi iddo weled llwyddiant eithriadol *Rhys Lewis* magodd fwy o hunan-hyder a dewrder ; credai ei fod wedi bwrw'i brentisiaeth, megis, ac y gallai, bellach, fentro i'r byd tuallan i'r capel a'r seiat, ac aeth ati i ysgrifennu *Enoc Huws*, yr hon sydd yn fwy o *nofel* a "chomedi gymdeithasol" (chwedl Saunders Lewis) na'r un o'r lleill.

Rhoes inni enghraifft o'i wroldeb yn y bennod gyntaf o *Enoc Huws*. Nid dyn gwan, di-asgwrn-cefn, a ysgrifennodd y bennod honno (na'r gweddill o'r llyfr, o ran hynny). 'R oedd yn ofynnol cael cryn dipyn o blwc i wneuthur "mab llwyn a pherth" yn "arwr" nofel Gymraeg yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf. Wedi darllen y bennod rymus a threiddgar hon drwyddi y mae cydymdeimlad y darllenydd yn ddi-os—fel y bwriadai'r awdur iddo fod—gydag Elin. Dyfnhâ'r cydymdeimlad hwn pan welir, yn ddiweddarach, mai "Capten Trefor"—y cnaf gwaethaf yn nofelau Daniel Owen—oedd y twyllwr. Rhoes yr awdur ergyd drom i Biwritaniaeth anfaddeugar ei oes ym mhennod gyntaf *Enoc Huws*—pennod a ddeil ei chymharu ag unrhyw bennod yn nofelau Thomas Hardy neu George Eliot ar eu gorau.

Yr oedd Daniel Owen, cyn iddo ysgrifennu *Enoc Huws*, wedi rhoi awgrym neu ddau ei fod yn heretic ar rai materion cymdeithasol : etifeddeg, a rheoli geni, er enghraifft.

Am Thomas a Barbara Bartley, a Seth, dywaid :

> "Ni chyfrifid Thomas na Barbara Bartley fel yn perthyn i ddosbarth y gwybodusion. Yn wir, edrychid yn gyffredin ar y ddau heb fod yn ben llathen ; o ganlyniad—Seth."[43]

Ie ; "Seth, y bachgen gwirion." Yr oedd Daniel gryn dipyn o flaen ei oes ar y pwnc hwn.

Wrth sôn am "Jones," a oedd yn gynorthwywr gydag Abel Hughes, ac i'r hwn y telid cyflog "bychan iawn," dywaid :

> "Ac eto yr oedd gan Jones, ie, Jones, y *cheek* i briodi gwraig ! ac am ddim a glywais bu y ddau fyw yn hapus, ac yn ddigon call i beidio ychwanegu dim at y boblogaeth ; oblegid dywedasai Abel Hughes fod un Jones yn ddigon yn y byd ; a chredodd Jones ef yn hyn fel ymhob peth arall."[44]

"Yn ddigon *call*," sylwer. Tybed a oes yn y frawddeg awgrym cynnil hefyd fod gan yr hen lanc, Abel Hughes, ei syniad ei hun ar y mater ?

Tlodi, wedyn. Yn ei sgwrs gyda Jones, y plismon, dywaid Enoc Huws : "Anffawd ac nid drwg ydyw tlodi, a damwain ydyw cyfoeth . . ."[45] Gwyddai Enoc hynny trwy brofiad—cofiai am y blynyddoedd y bu yng "Ngweithdy'r Undeb." Ond nid dyna'r

'hyn a gredid gan fwyafrif mawr cyfoeswyr Daniel Owen—yn enwedig gan "bobol dduwiol." Iddynt hwy, yn arbennig, yr oedd dyn yn dlawd un ai am ei fod yn ddiog neu yn feddwyn. Ac er i'r dirwasgiad masnachol rhwng y ddau Ryfel Byd wneud rhyw gymaint i newid barn y cyhoedd ar y pwnc, ceir olion o'r hen ofergoel hyd heddiw mewn amryw o ficerdai, mewn ambell i fanse, ac mewn llawer sêt fawr.

Faint a wyddai Daniel Owen am feddyleg? Cryn dipyn, mi gredaf. Terfynaf y traethodyn hwn trwy ddyfynnu'r frawddeg awgrymiadol hon o'i eiddo; brawddeg y gellid dweud ei bod yn grynodeb pur gywir o athroniaeth yr awdur ynghylch y byd a'r bywyd hwn: dyna, efallai, oedd y rheswm iddo ei hitaleiddio:

"*Mae anmhariad ar yr ymenydd yn enyn cydymdeimlad, a phe gwyddai y byd gynifer o honom y sydd a'n hymenyddiau wedi eu hanmharu, y fath ychwanegiad a fyddai at y swm o gydymdeimlad sydd eisoes mewn cylchrediad!*"[46]

CADWALADR.

(*Hawlfraint yr Awdur*)

MYNEGAI I'R DYFYNIADAU.

1. Offrymau Neillduaeth, tud. 40. 2. Y Rhagymadrodd i *Enoc Huws*, tud. iv. 3. Offrymau Neillduaeth, tud. 51, 52. 4. *Y Dreflan*, tud. 31. 5. *Rhys Lewis*, tud. 19, 20. 6. *Y Dreflan*, tud. 37. 7. *Y Dreflan*, tud. 73. 8. *Rhys Lewis*, tud. 248, 249. 9. *Rhys Lewis*, tud. 184. 10. *Rhys Lewis*, tud. 64. 11. *Y Dreflan*, tud. 52. 12. *Y Dreflan*, tud. 164. 13. *Y Dreflan*, tud. 193. 14. *Rhys Lewis*, tud. 80. 15. *Rhys Lewis*, tud. 80; 16. *Gwen Tomos*, tud 158. 17. *Gwen Tomos*, tud. 158. 18. *Enoc Huws*, tud. 15. 19. *Rhys Lewis*, tud. 68. 20. *Rhys Lewis*, tud. 69. 21. *Gwen Tomos*, tud. 21. 22. Y Siswrn, tud. 136. 23. Offrymau Neillduaeth, tud. 163. 24. *Y Dreflan*, tud. 117. 25. *Y Dreflan*, tud. 118. 26. *Rhys Lewis*, tud. 20. 27. *Rhys Lewis*, tud. 74. 28. *Gwen Tomos*, tud. 159. 29. *Gwen Tomos*, tud. 159. 30. *Enoc Huws*, tud. 285. 31. *Y Siswrn*, tud. 14. 32. Daniel Owen, y Nofelydd, gan Isaac Foulkes, tud. 127. 33. *Gwen Tomos*, tud. 326. 34. *Rhys Lewis*, tud. 329. 35. *Enoc Huws*, tud. 86. 36. *Enoc Huws*, tud. 295, 296. 37. *Enoc Huws*, tud. 296. 38. *Rhys Lewis*, tud. 141. 39. *Rhys Lewis*, tud. 220, 221. 40. *Enoc Huws*, tud. 224. 41. *Enoc Huws*, tud. 225. 42. *Y Siswrn*, tud. 52. 43. *Rhys Lewis*, tud. 83. 44. *Rhys Lewis*, tud. 220. 45. *Enoc Huws*, tud. 250. 46. *Gwen Tomos*, tud. 216.

Mrs. Gaskell.

Undodwraig, Nofelydd a Diwygiwr Cymdeithasol.

Gan K. V. Jones (gynt o Gellifaharen).

"*And though the viol string is broken it is fitting that its sweet and plaintive note should echo though the years of life.*"

Ganwyd Elizabeth Cleghorn Gaskell yn Chelsea, un o faestrefi Llundain ar y nawfed ar hugain o Fedi, 1810. Bu ei mam farw ymhen blwyddyn ac ni chafodd ei thad fyw i weld yr addewid mawr oedd yn ei ferch oblegid bu yntau farw pan nad oedd ond pedair ar bymtheg oed. Hi oedd yr ail o ddau o blant a aned i'w thad o'i briodas gyntaf. Hanai ei mam o deulu da; yr oedd yn ferch i Samuel Holland o Sandlebridge yn Cheshire ac yn wyres i'r Viscount Knutsford a deuai ei hen famgu o linach James Thomson y bardd ac awdur "The Seasons." Yr oedd ei thad yn fab i swyddog yn y Llynges ac yn ŵr o dras Ysgotaidd wedi ei eni yng Nghaeredin (Edinburgh). Athro preifat i deulu yn Bruges oedd ar y cychwyn ond yn ddiweddarach daeth yn weinidog gyda'r Undodiaid gan ofalu am dro am Gapel Failsworth gerllaw Manchester. Yr oedd yn ŵr galluog a daeth yn newyddiadurwr llwyddiannus ac yng Nghaeredin bu'n hyfforddi llawer o fyfyrwyr y Brifysgol. Yn y diwedd, trwy garedigrwydd ei gyfaill, yr Arglwyd Lauderdale daeth yn Geidwad Cofnodion y Trysorlys, swydd a ddaliodd hyd y diwedd. Felly gwelwn fod gan Elizabeth dreftadaeth Undodaidd y gallai ymfalchïo o'i phlegid.

Trigai ei thad gerllaw tŷ Carlyle ac yn 1811 pan fu ei wraig gyntaf farw aethpwyd a hi yn faban bach oddi yno i Knutsford, tref fechan a oedd yn gartref i bobl ei mam. Daeth Knutsford yn ddiweddarach yn gefndir i 'Cranford' nofel enwocaf Mrs. Gaskell. Codwyd y plentyn gan ei modryb, Mrs. Lumb, dynes gyfoethog a charedig a oedd yn byw ar ei ffarm. Yno yn y gegin fawr gyda'i phedair ffwrn y dysgodd Mrs. Gaskell sut i grasu bara a macsu. Ymhyfrydai yn y gweundir gwyllt a oedd o gwmpas yr hen dŷ a bu ar goll am oriau ben bwy gilydd ynghwmni ei chyfnitherod yr Hollandiaid. Ai i gapel Brook Street ac yno bu'n canu'r harmonium a chadw dosbarth yn yr Ysgol Sul. Yr oedd Undodiaid yr oes honno yn ddyngarwyr pybyr ac yn wŷr blaenllaw yng nghylchoedd Manceinion a'i caredigrwydd yn chwedl.

Pan oedd yn bedair ar ddeg danfonwyd y ferch fach i ysgol breswyl yn Stratford-on-Avon, ysgol a gadwyd gan y tair Misses Byerley, nithoedd i Joseph Wedgwood. Dywedir fod wyresau i'r adnabyddus Ddr. Priestley ymhlith y disgyblion yno. Bu yno

am rai blynyddoedd yn ddisgybl tra llwyddiannus. Dysgodd Ladin, Ffrangeg ac Eidaleg ynghyd â phethau fel ymarweddiad a chwrteisi'r oes. Cafodd wersi dawnsio gan hyfforddwr yr enwog William Pitt. Dysgwyd yr ysgolheigion i feddwl drostynt hwy ei hunain, fel yn achos Charlotte Brontë a dysgwyd hwy i ddad-ansoddi, gwrthod a gwerthfawrogi. Gadawodd Elizabeth Stratford heb y "Cambridge Higher Certificate" ond ymadawodd yn berchen ar rywbeth na allai un arholiad ei roddi iddi—deffroad meddyliol byw a diddordeb mewn dynoliaeth a chelfyddyd.

Disgynnodd diflastod mawr ar y teulu pan ail-briododd ei thad ac yn y diwedd aeth y ferch i fyw at y fodryb a oedd yn barod i'w derbyn bob amser. Yn ddiweddarach danfonodd William Stevenson am ei ferch ac fe arosodd gydag ef o hynny hyd at ei farwolaeth yn 1837. Yna, a hithau bellach yn rhydd o bob cyfyngiad aeth yn ei hôl i Knutsford ac yn ddiweddarach at ei hewythr, Syr Swinton Holland, i fyw yn Park Lane ac i barhau ei haddysg. Daeth yn gydymaith i ferch y Parch. William Turner y gŵr a fu'n weinidog annwyl yn Newcastle-on-Tyne. Yr oedd George Stevenson, y peiriannydd enwog yn un o gyfeillion agos Turner. Bu'r ddwy ferch yng Nghaeredin am dro byr pan dorrodd clwyr'r Colera ar ei traws, ond buan y dychwelasant i Fanceinion gan dalu ymweliad â Mrs. Robberds, merch hynaf Mr. Turner. Yr oedd ei gŵr hi yn weinidog ar gapel Undodaidd Cross Street a neb llai na William Gaskell yn gynorthwywr ifanc iddo. Yn ddiweddarach daeth Gaskell ei hun yn weinidog ar Cross-Street. Yr oedd yn ysgolhaig disglaer ac yn ŵr gradd o Brifysgol Glasgow a bu wedyn yn Athro mewn Llenyddiaeth Saesneg a Hanes ym Manchester New College. Yr oedd yn ysgolhaig Almaenaidd o safon, yn ysgrifennydd emynau ac yn ddiweddarach bu'n olygydd ar yr *Unitarian Herald.*

Saith ar hugain oed oedd William Gaskell yn 1832, ac yr oedd yn ŵr tal, lluniaidd ond o gymeriad dwys a syber. Syrthiodd mewn cariad â'r landeg Elizabeth. Merch o daldra canolig oedd Elizabeth eithr o osgo fonheddig, talcen hardd, gwên fywiog a llais melodaidd. Yr oeddynt yn bâr trawiadol iawn pan eu priodwyd yn 1832 yn eglwys fechan Knutsford. (Ni ellid gweinyddu priodas mewn Capel anghydffurfiol y pryd hwnnw). Wedi treulio'r gwyliau mêl yn Ffestiniog aethant yn ôl i Fanceinion i ddechrau eu byd. Cawsai Mrs. Gaskell beth profiad o waith Cymdeithasol yn Knutsford ond yn ei byd newydd daeth wyneb yn wyneb a bywyd bob dydd y dre ac fe gyflwynodd ei hunan i'w phlwyfolion a'i theulu a bu bob amser yn fam ddelfrydol.

Ni ysgrifennodd ddim tan 1837 a'r llyfr cyntaf oedd gwaith cydweithredol rhyngddi hi a'i phriod *Sketches from the Poor*, ac yna ddwy flynedd yn ddiweddarach ymddangosodd *Visits to remarkable Places*—atgofion o'i dyddiau ysgol.

Yr oedd cyflwr diwydiannol Manceinion ar hyn o bryd wedi taro ar gyfnod o drai isel oherwydd y diffyg cotwm a ddilynwyd gan Siartiaeth a ddaeth yn ei dro â llawer o dlodi a newyn ac anobaith. Nid oes ryfedd i'r blynyddoedd yma gael eu bedyddio yn "The Hungry Forties." Cydymdeimlai Mrs. Gaskell yn fawr â'r dosbarth gweithiol. Yr oeddynt yn anwybodus a gorfodwyd i'w plant weithio pedair awr ar ddeg y dydd am hanner coron yr wythnos. Gweithiodd ym mysg y bobl yma a gwyddai am eu caledi.

Yr oedd ochr arall i fywyd trefol Manceinion, ochr a diwylliant mawr yn perthyn iddi. Cefnogwyd cynulleidfaoedd anghydffurfiol gan deuluoedd dylanwadol ond yng nghynulleidfa Undodaidd Mr. Gaskell yr oedd yr aelodau ar y blaen i bawb mewn diwylliant meddyliol a choethder cyffredinol.

Yn 1844 bendithiwyd y pâr ifanc â mab bychan, Willie, ond fe'i collwyd yn gynnar o'r dwymyn goch, a bu'r fam bron a thorri ei chalon. Datblygodd yr hiraeth yn anhwylder difrifol ac aeth pethau mor ddrwg fel yr anobeithid am ei bywyd. Ond perswadiodd ci gŵr hi i ail ddechrau ysgrifennu a'r canlyniad oedd y stori *Mary Barton*. Llyfr prudd ydoedd ac ynddo adlewyrchiad o'r trasiedi a'i cwmpasai hi a'i phobl a dengys Mrs. Gaskell fel nofelydd a diwygiwr cymdeithasol. Yr oedd yn ysgrifenwraig ddewr ac ni ofnai ddweud ei meddwl a mynegi ei theimladau a rhaid cofio na wnaethpwyd llawer i ddeffro'r gydwybod gymdeithasol cyn ei dydd. Yr oedd ei llais hi ymysg y cyntaf i'w godi o blaid dynoliaeth a hynny ar sail egwyddorion dyngarwch. Yn erbyn 1848 yr oedd yn enwog ond ni fynnai gyhoeddusrwydd. Yr oedd y stori wedi creu cyffro mawr ac fe'i cydnabuwyd fel nofelydd o safon. Aeth i Lundain a chanddi gyflwyniad i Charles Dickens ac yn 1850 cyfranodd i'w gyfnodolyn *Household Words* ac i *Harpers* a'r enwog *Cornhill*. Daeth i gyffyrddiad â Thackeray, Carlyle a'i deulu, Froude yr hanesydd ac eraill. Adwaenai Harriet Martineau ddysgedig a George Eliot ac fe ysgrifennodd *North and South* yn nhawelwch cartref Florence Nightingale yn swydd Derby.

Gadawodd ei chyfeiriadau at gyflwr ei chymdeithas bellach ac o hyn ymlaen dyfeisiodd gynlluniau a roddai iddi gyfle i fod yn ysgafnach a mwy digrif. Yn ddiau yr oedd yn storïwr o galon a chanddi o helaethrwydd y ddawn ddisgrifio. Gwelir hen chwedlau ac arferion ac ofergoelion wedi eu gwau blith draphlith drwy ei llyfrau. Yna mewn storïau byr anneirif ymddiddorai yn y pethau yma hefyd ond byddai'r rhain yn greadigaethau cyffrous yn ddieithriad bron, a'r rhyfeddol ac ofnadwy yn cael lle amlwg ynddynt.

Pan wellodd safle ariannol ei gŵr a phan etifeddodd hithau gyfoeth prynasant dŷ mwy yn Plymouth Grove, tŷ a safai yng

nghanol coed ar ymyl y dref gan wynebu'r wlad agored. Yno y byddai Mrs. Gaskell yn lletya ac adlonni ei gwesteion yn ddeheuig a graslon a mawr fu'r ymgasglu o gyfeillion llên dan y tô moethus hwn. Yn 1850 darllennodd Mrs. Gaskell *Shirley* a deffroes hynny awydd ynddi i gwrdd â'r awdur. Datblygodd cyfeillgarwch rhwng y ddwy ddynes nodedig yma a bu'n gyfrwng i ddwyn cyhoeddusrwydd mwy i Mrs. Gaskell. Ar ôl marw anhymig y gyfeilles athrylithgar hon gofynnodd Mr. Bronte iddi am ysgrifennu hanes bywyd ei chyfeilles. Treuliodd Mrs. Gaskell ddwy flynedd wrth y gwaith a heddiw mae'n un o'r clasuron ymhlith cofiannau ac yn waith i'w gymharu ag eiddo Boswell ar Johnson. Ymwadodd â'r nofelau yng nghyfnod ei ysgrifennu ac fe berswadiodd ei gŵr i'w chanlyn i Haworth a Brussels dau le a oedd ar lwybrau cynefin Charlotte Brontë.

Yr oedd Mr. Gaskell yn fawr ei sêl yn ei genhadu a daliodd ati yn ddygn hyd at ei farwolaeth yn 1884 ac yr oedd iddo gynulleidfa tuallan ynghyd â thu mewn i furiau ei gapel. Yr oedd Mrs. Gaskell hithau yn wraig dda, yn llawn cariad ac yn flaenllaw dros oddefgarwch crefyddol. Ysgrifennai gan mwyaf yn ystod misoedd y Gaeaf a'r Hydref a phryd hynny byddai'n ddiwyd eithriadol. Cyfieithiwyd llawer o'i gwaith i'r Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a hyd yn oed i iaith Hwngari ! Ond er i *Mary Barton*, *Ruth*, *North and South*, *Sylvia's Lovers*, *Cousin*, *Phillis* a *Lady Ludlow* ennill poblogrwydd mawr ni pheidiodd ysgrifennu a bod yn bleser ac nid busnes iddi. Ei hoff blentyn llenyddol oedd *Sylvia's Lovers*. Mae *Cranford* yn sicr o'i le fel clasur bychan ac fe drysorir ynddo ei hatgofion bore oes. Bydd yn enwog tra darllenir *The Life of Brontës*. Torrodd ei hiechyd ar hanner ysgrifennu *Wives and Daughters* ac fe'i cwblhawyd gan law arall fel "ei gwaith creadigol mwyaf a diwethaf." Gyda threigl y blynyddoedd pallodd ei nerth a bu'n crwydro'r cyfandir gan swyno llawer cyfaill newydd gyda chyfaredd ei phersonoliaeth.

Fe'i trawyd gan glefyd y galon ar Dach. 12, 1865 a syrthiodd yn farw o'r soffa yng nghanol ei theulu wrth ddisgwyl am gwpanaid o de. Tangnefedd a ddisgynnodd ar ei hysbryd bonheddig. Claddwyd hi ym mynwent Capel Brook Street, Knutsford ac yno mae'n gorwedd yng nghanol ei chyfeillion a'i thylwyth a'r atgofion melys a garai mor fawr.

Wedi treiglo trigain mlynedd, darllenir ei llyfrau o hyd a da gwybod hynny. (Cyf.).

I ymddangos yn Rhifyn Rhagfyr : Ail ran "Swyddogaeth Gwraig" a llythyr oddi wrth Carrellio-Morgan.—Gol.

Y Ddogma Babaidd Newydd.

ESGYNIAD CORFF ANLLYGREDIG Y FORWYN FAIR.

Gan y Parch. Tyssul Davies, B.A.

Nid yw'r syniad o Esgyniad Corfforol y Forwyn Fair yn syniad newydd o gwbl. Credodd y Catholigion ynddo ers canrifoedd. Opiniwn ydoedd iddynt fodd bynnag, neu dyweder argyhoeddiad neu gred.

Yn awr bwriedir ei droi o fod yn gred a ellir ei dal neu beidio i fod yn ddogma y sy'n rhaid ei chredu neu wynebu damnedigaeth dragwyddol. Gan fod y Catholigion yn credu eisoes ni fydd trafferth o'r cyfeiriad hwnnw. Y gwŷr sy'n gwrthwynebu yw'r Protestaniaid, pobl nad oes a fynont â'r peth o gwbl mewn gwirionedd.

Dywedir fod corff Mair Mam yr Iesu wedi ei gyfodi ar ôl ei marwolaeth i'w ail uno a'i henaid. Dywedir fod yr hyn ddigwyddodd yn hanes Iesu yn ôl eu tyb hwy wedi digwydd eilwaith yn hanes Mair. Os oes unrhyw ogoniant mewn mynd a'r hen gorff gyda chwi i'r nefoedd, yna gadawer i'r fam annwyl gael yr un anrhydedd â'r mab disglaer.

Mae'r cyfan i gyd yn ddwl i wala ond y peth sy'n ddamniol yw'r gallu i wasgu cred mewn lol gwirion fel yma ar feddyliau miliynau o bobl fel peth cwbl angenrheidiol ; peth sy'n rhaid ei gredu neu wynebu canlyniadau difrifol. Ymddengys i ni yn orhyfder balch. Beth a roes y nerth yma yn nwylo'r Fatican ? Onid gwendid y natur ddynol, y gwendid sy'n atal pobl rhag meddwl drostynt hwy eu hunain, y gwendid sy'n cymell eraill i feddwl trostynt. Dyna felltith yr arfer mewn gwleidyddiaeth, mewn celf, mewn llenyddiaeth, mewn economeg, mewn diwinyddiaeth ac mewn crefydd. Boed Bab neu Karl Marx neu Lenin neu Ddarwin – yr un peth cywilyddus ydyw—dyn fel ninnau yn achub mantais ar yr anwybodaeth a'r diogi meddyliol ar anallu i benderfynu drostynt eu hunain pa beth sydd wir iddynt. Dihangfa ydyw, dihangfa gysurus ydyw i bobl gael pwyso ar eraill ag osgoi pob trafferth eu hunain. Fel y dywed Emerson : "What is the greatest task in the world ? It is to think."

Ac os y gwrandawn ar Shakespeare y mae yn ddyletswydd ac yn fraint arnom i ddefnyddio'r ddawn yma, y gallu hwn o fedrn meddwl drosom ein hunain. Safwn dros hynny. Dyna egwyddor sylfaenol yr Eglwys Dduw-gredol. Yr hawl a'r ddyletswydd ar bob dyn i feddwl drosto ef ei hun.

Sure, He that made us with such large discourse,
Looking before and after, gave us not
That capability and godlike reason
To fust in us unused.

(Hamlet).

Ni allwn werthfawrogi'r helynt a godir gan yr Eglwys Sefydledig oherwydd y ddogma newydd yn enwedig o gofio ei bod hi yn dysgu'r union athrawiaeth am aelod arall o'r Bendefigaeth nefol. Ar ba egwyddor y seiliant eu ple? Ei ateb yw y cadarnheir eu dysgeidiaeth hwy gan yr Ysgrythur ac na ellir dweud hyn am y llall. Ond nid yw cefnogaeth yr ysgrythur bob amser yn warant dros synnwyr a gwirionedd y peth. Beth a wnawn o'r dywediadau yma.

"Am hynny os dy law neu dy droed a'th rwystra, tor hwynt ymaith, a thafl oddi wrthyt: gwell yw i ti fyned i mewn i'r bywyd yn gloff, neu yn anafus, nag a chennyt ddwy law, neu ddau droed, dy daflu i'r tân tragwyddol (Math. xviii., 8).

"A'r rhai hyn a ânt i gosbedigaeth dragwyddol . . ." (Math. xxv., 46).

". . . yn ymddangosiad yr Arglwydd Iesu o'r nef, gyd a'i angylion nerthol, a thân fflamllyd, gan roddi dial i'r sawl nid adwaenant Dduw . . . y rhai a ddioddefant yn gosbedigaeth, ddinystr tragwyddol (II Thes. i., 7, 8, 9).

"Yr angylion hefyd y rhai ni chadwasant eu dechreuad . . . a gadwodd efe mewn cadwynau tragwyddol dan dywyllwch (Judas i., 6).

Felly gwelir na ' yw'r Ysgrythurau bob amser y lle i chwilio am dipyn bach o synnwyr cyffredin a dynoliaeth ynddynt. Fel y gwelwn gall Awdurdod Ysgrythyrol gefnogi cieidd-dra barbareiddiwch. Paham nad oes ar ddynion gweddus gywilydd eu bod y gaeth i lythyren petha mor annynol a ffansïol â'r rhain?

Daeth yr Eglwys Gristnogol i fodolaeth ymheil cyn bod sôn am unrhyw Ysgrythyr. Byddai llawer o'r syniadau a goleddid erbyn yr amser y casglwyd yr Efengylau wedi rhoi sioc fawr i Sylfeinydd Cristnogaeth. Byddai'n synnu o glywed iddo gael ei eni ym Methlehem ac nid yn Nazareth a'i fod wedi ei achub rhag 'lladdfa fechgyn' Herod. Fe'i synnid fwy pe clywsai ei fod wedi atgyfodi gŵr o feirw, corff yr hwn oedd eisoes yn dechrau pydru. Ac yn arbennig fe synnai o glywed ei fod ef wedi mynd a'i gorff i'r nefoedd pan fu farw. Eithr y mae'r Testmanet Newydd yn dysgu'r pethau amheus yma i gyd. Yr eglurhad yw wrth gwrs na fedrai'r ysgrifennwyr ar adeg ysgrifennu'r pethau yma synied am ddyn ar wahan i'w ffurf ddaearol weledig. Ni chlywsant am na Phlaton na Phythagoras. Gwŷr distadl oeddynt.

Ceir y syniadau anwyddonol yma yn Actau i., 8—12; yn yr ychwanegiad at Marc xvi., 19 ac yn Luc xxiv., 49—51 "Tra yr

oedd efe yn eu bendithio hwynt . . . efe a ddygwyd i fyny i'r nef." Nid oes ddim am atgyfodiad y corff yn yr adnodau yma ond cesglir ei fod wedi esgyn yn ei gorff am fod y bedd yn wag. Dywaid Paul, fodd bynnag, fod hynny yn amhosibl. "Ni ddichon cig a gwaed etifeddu teyrnas Dduw" (I Cor. xv., 50). Gallai Paul a'i weledigaeth Psychig ddeall yr hyn a elwir ganddo yn ddirgelwch ond y mae'n eglur na allai'r Eglwys Gristnogol synied am ddyn ar wahan i'w gorff o gnawd. Felly rhaid oedd credu fod yr Iesu wedi esgyn i'r nefoedd (pa le bynnag y mae hynny fel lle) yn ei gorff o gnawd, yn nerfau, gwythiennau, ysgyfaint a stumog a chwbl. Heddiw yn yr oes hon nid oes angen ymdrin a'r fath gred, gobeithio. Y mae'r peth yn amhosibl. Y mae popeth a wyddom am fraenu a dadelfennu'r corff yn dangos gwiriondeb y gred. Yn wir ni chredai neb ynddi oni bai ei bod yn yr Ysgrythyr santaidd.

Eithr dyma yw cred awdurdodol y Grefydd Genedlaethol, y grefydd a fydd yn grud i feddyliai'r Tywysog Siarl a'r Dywysoges Anne. "Y mae yn angenrheidiol er mwyn iachawdwriaeth dragwyddol ei fod yn iawn gredu yn Ymgnawdoliad yr Arglwydd Iesu Grist . . . Duw perffaith, Dyn Perffaith . . . yn gyfuwch â'r Tad . . . a gyfodwyd o feirw . . . ac a esgynnodd i'r nefoedd . . . ac ar ei ail ddyfodiad ef, fe gyfodir pob dyn GYD A'I CYRFF . . . a'r pechadurus a deflir i'r tân tragwyddol."

Dyma efengyl hardd i ddysgu i blant diniwed! O druenus, gywilyddus beth! Onid dyma un o droseddau budraf y byd! Eithr a hithau bellach yn 1950 eto dyma ddysgeidiaeth yr Eglwys Sefydledig. A hwy sy'n cwyno fod y ddogma newydd yn mynd i sarnu'r cynlluniau i aduno eglwysi cred! Yn wir, yn wir os yw yn rhesymol am y Mab oni all fod yn rhesymol am y Fam hefyd.

. . . .

Fodd bynnag, ar ôl y dydd cyntaf o Dachwedd 1950 ni all un Catholigwr wrthod y gred heb beryglu ei enaid anfarwol a wynebu gwres y fflamiau tragwyddol. A dyma ni yn ôl unwaith eto gyda'r hen ddadleuon am yr Ysgrythyrau a pha beth dâl hynny? Gwaith dwylo dynion yw pob Ysgrythur boed Roegaidd, Bersiaidd, Hindwaidd neu Fuhamedanaidd. "To err is human," felly disgwyliwn a gwelwn ddelfrydau, syniadau ac ofergoelion meidrol iawn wedi eu gwau i mewn i'w patrwm. Meddyliwch am y gred ynglŷn ag agosatrwydd diwedd y byd a geir yn y Testament Newydd. Dywedwyd fod Iesu yn credu fod diwedd y byd yn ymyl. Os felly, gwnaeth gamgymeriad. Ni allaf gredu fod gweledydd mor fawr wedi derbyn y fath ffolineb ond fe gredai'r disgyblion hynny. A'r peth nesaf oedd tadogi eu cred ar y meistr. Yr un modd credwn ninnau heddiw mewn pethau a ddangosir yn ffolineb maes o law . . .

Beth am atgyfodiad y corff? Nid oes neb o'r holl filoedd a ddaeth yn ôl wedi dwyn tystiolaeth i bosibilrwydd atgyfodiad y

corff. Yn union ar ôl marwolaeth, pan dyrr y llinyn arian, ymneulltua'r dyn allan o'i blisgyn daearol gan ymddangos bellach mewn ffurf (corff pshycig neu etherig) a fydd ymhob ystyr ar lun a delw ei gorff cnawdol. Bydd hwn yn llai materol ei ffurf ac yn lanach ei olwg, ac felly y newid dyn o'r uwch i'r gwell o gylch i gylch hyd oni ddelo i stâd perffeithrwydd y ceir arwyddion ohoni yn chwedlau Afallon, Gwynfyd, Paradwys a Nirfana.

Dywedir wrthym fod angen dogmau heddiw er atal y dirywiad cymdeithasol ac er dwyn y byd at ei bost. Ond a wnaeth dogma ddim erioed heblaw drysu'r meddwl dynol gan achosi ymrannu chwerw. Ni ellir dileu effaith gwyddor anghywir ond trwy wyddor well, ddoeth a chywir. Ni ellir dim gyda'r hyn nad yw wyddor o gwbl. Pa fodd y gellir gwella byd a lethir gan ddyryswch dogmatig drwy roddi rhagor o ddogmau ar ei gefn? Sut y gellir gwella ffolineb economaidd drwy ffolineb diwinyddol?

Angen mawr y byd heddiw yw gwybodaeth gywir am wir wreiddyn dyn a phwrpas ei ddyfodiad i'r byd gan egluro iddo yr egwyddorion mawr sy'n arwain a chyfeirio ei fywyd. A mwy na dim rhaid pwysleisio cadernid deddf achos ac effaith—ni thwyllir Duw—yr hyn a heuo dyn hynny hefyd a fed efe. Y twyll mwyaf a ddisgynnodd ar feddwl dynion ein oes yw'r gred y gall dyn wneud a fynno, y gall ddwyn, dolurio a lladd ag eto bod yn gwbl rydd.

The theft comes back to the thief
The murder comes back to the murderer,
The love comes back to the lover,—
Comes back to him, it can not fail.

Dyna gyfraith wyddonol na ellir ei hosgoi, ac fel y mae yn wir am y gormeswr politicaidd y mae yn wir hefyd am y gwŷr a geidw'r bobl hygoelus mewn tywyllwch er mwyn cadw'r awenau iddynt hwy eu hunain . . . Felly yr ydym yn dra diolchgar i bob arloeswr dewr a heretic a ymladdodd yn erbyn holl allu'r tywyllwch i osod dynoliaeth yn rhydd. Oblegid,

"He is the freeman whom the truth sets free,
And all are slaves besides."

(Talfyrwyd wrth gyfieithu gan obeithio na chollwyd neges fawr yr anerchiad yma.—*Gol.*).

Priodas.

Dydd Sadwrn, Hydref 7fed, yng Nghapel y Methodistiaid, Llwynygroes, priodwyd EVAN HOPKIN DAVIES, Tanrallt, Cribin, a MARGARET HANNAH DAVIES, Lletyrpannwr, Llwynygroes, gan y Parch. Trefor Lloyd, B.A., Llanbedr gyda chynorthwy y Parch. J. Islan Jones, M.A. Bendith Duw fo ar yr undeb.

Marwgofion.

MEDI 23, ar ôl cystudd maith a chaled, THOMAS HERBERT LEWIS, Penlon Esger, Pontshaen, yn 74 oed. Glöwr oedd ar hyd blynyddoedd lawer yn sir Forgannwg ac wedi hynny'n sir Gaerfyrddin, ond ers rhai blynyddoedd dychwelodd i'w hen gartref at ei briod a daeth yn adnabyddus i gylch eang fel gwerthwr newyddiaduron. Ar hyd ei oes bron mwynhaodd iechyd da, ac yr oedd o gorff cadarn, crwn ond fisoedd yn ôl dechreuodd ddihoeni a chafodd gystudd caled a blin, er hynny cadwodd yn hynod o ddirwgnach. Wedi colli'i briod rai blynyddoedd yn ôl cadwodd aelwyd ei hun a chyda chynnorthwy achlysurol ei ddwy ferch briod a'i ferch-yng-nghyfraith cadwodd aelwyd gymen a glanwedd. Hwy hefyd weiniodd arno yn ei gystudd. Gadawodd i wylo'i golli ddwy ferch, mab, merch-yng-nghyfraith, chwaer a nifer o wyrion. Claddwyd y Mercher dilynol ym mynwent Capel-y-Fadfa. Cymerwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan ei nai, D. Jacob Davies, ac yn y Capel a'r fynwent gan E. O. Jenkins, D. Elwyn Davies a W. M. Jenkins, Talgarreg.

HYDREF 2 bu farw ANNE, annwyl briod Hopcyn Jones, Bryn-awelon, Cae-Bassett, Gŵyr, ar ôl rhai misoedd o gystudd, yn 76 oed. Hanai o deulu Undodaidd parchus, sef teulu Twllygwyddel, Rhydyfro. Merch ydoedd i Thomas a Margaret Morgans, fe'i magwyd ar aelwyd wir Undodaidd, a pharhaodd dylanwad y fagwraeth honno arni ar hyd ei oes. Dechrau'r ganrif hon gwelwyd hi a'i mam yn aml yn marchogaeth tros Fryn-Lachart tua Gellionen, bron yn ddieithriad ar fore Sul cymundeb, ac wedi iddi ymadael â'r cylch Undodaidd, daliodd ei serch at yr hen gapel yn fyw. Pan gyfarfuem yn achlysurol, byddai'r ymgom yn sicr o droi i gyfeiriad yr hen Gapel y fynwent, a'n "beddau ni," a pha rhyfedd canys yno y gorwedd ei Thad, ei Mam, a'i brawd, a llawer o berthynasau eraill. Derbyniodd a darllenodd yr YMOFYNNYDD am hir amser yn ei ardal newydd. Gwraig dawel, diwyd ac addfwyn ydoedd, nid oedd ball ar ei pharodrwydd un amser ; magodd deulu mawr, tri bachgen a chwe merch, a'r cwbl oll wedi tyfu fyny, a phob un yn anrhydedd i'w choffadwriaeth fel mam dda. Estynnwn ein cydymdeimlad dwys i'w phriod, yntau yn wael ei iechyd, y plant, a nifer o wyrion. Claddwyd y dydd Iau canlynol yng Nghladdfa Gyhoeddus Kingsbridge, a thyrfa fawr wedi dod ynghyd i dalu y gymwynas olaf iddi, ac yr oedd nifer y torchau blodau amryliw eto yn dangos faint ei pharchusrwydd. Gwasanaethwyd yn y tŷ, Capel y Tabernacl, Tre-Gŵyr ac ar lan ei bedd gan y Parchedig E. S. Roberts, Carmel, Treforus, yn cael ei gynorthwyo gan y Parchn. O. C. Jenkins, Felindre ; E. O. Jones, Llandefeiliog ; Isaac Thomas, Garnswllt a Medfoed Lloyd, Old Walls.

"Yr addfwyn gwyn eu byd !
Rhai'n llawn tiriondeb gwâr."

J.M.J.

Newyddion yr Enwad.

LLUNDAIN.—Yn ystod y tri mis diwethaf yma cawsom wasanaethau o dan arweiniad y canlynol : y Parch. E. D. Davies,; Prifathro J. D. Jones, B.A., B.D. ; y Parch. T. L. Jones a'r Parch. T. O. Williams, M.A. Ar y Sul cyntaf o Hydref cawsom ein Gwasanaeth Diolchgarwch. Yr oedd nifer dda yn bresennol a rhoddodd y Parch. J. Marles Thomas, M.A. bregeth feddylgar a hwylus inni. Diolch yn fawr iddo ac i bawb o'r gweinidogion a enwyd uchod.—Da gennym ddeall fod Miss Megan Davies, sydd wedi bod yn wael iawn yn yr Ysbyty yn lawer iawn yn well erbyn hyn. Dymunwn iddi lwyr adferiad a gobeithiwn ei gweld yn ôl gyda ni yn ein gwasanaethau cyn hir.—Yr ydym wedi colli teulu ffyddlon yn Mr. a Mrs. Griffiths a'u mab trwy eu dychweliad i Gymru ; ein colled ni fydd ennill Caeronnen.—Llongyfarchwn y rhieni canlynol ar enedigaeth eu plant, Mr. a Mrs. Barnes (merch) ; Mr. a Mrs. Joyce (bachgen) ; Mr. a Mrs. Tom Williams (bachgen). Mae'r plentyn cyntaf wedi cael ei fedyddio yn Highgate, hwyrach y caiff y lleill hefyd cyn hir. —Ymfalchiwn o glywed bod y Parch. Noel James, B.A. yn cymryd gofal am bwlpudau Cribyn a Chapel-y-Groes am y flwyddyn nesaf ; rhoddodd wasanaeth ffyddlon i ni yma yn 1949.—Pleser oedd darllen am Dr. Tom Jones, C.H. yn dathlu ei bedwar ugain oed yn ddiweddar ; efô a'r Dr. Elfed Lewis, C.H. (ac yntau'n 90) yw'r mwyaf o Gymry Llundain sydd wedi dychwelyd i'r Hen Wlad i dreulio eu hwyrddydd wedi diwrnod da o waith yn y Brifddinas. Gyda llaw, llongyfarchwn hefyd yr Undodwr enwog hwnnw y Prifathro L. P. Jacks ar ei 90 penblwydd.

HEN-DY-CWRDD, TRECYNON, ABERDÂR.—Sul, Hydref yr 8fed, 1950 cynhaliwyd Gwyl Diolchgarwch eglwys yr Hen-Dŷ-Cwrdd. Gwasanaethwyd gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., Cefn-Coed. Cafwyd tair oedfa hwylus iawn, y pregethwr mewn uchel hwyl yn traddodi gwersi pwysig i'r cynulliadau da iawn a ddaeth ynghyd, ag ystyried fod amryw o gyrddau pwysig eraill yn yr ardal ; llongyfarchwn ein hunain ar y cynulliad, teimlem yn hapus o'r llwyddiant gan ein bod yn cael anhawster mawr yn awr i gadw yr oedfaon yn gyson wedi colli ohonom ein annwyl fugail. Amlwg iawn oedd ei sedd wâg yn yr ŵyl yma. Diolchwn yn fawr i'r Parch. J. Marles Thomas am ei bregethau grymus a chynwysfawr, ac am ei gyfeiriadau at draddodiad gwerthfawr yr hen achos sydd a'r drothwy dathlu ei ddau can mlwyddiant, traddodiad sydd yn gofyn ffyddlondeb ar ran yr eglwys heddiw i gadw yr achos annwyl a bendigedig yn fyw, ac o ddylanwad i'r ardal. Daliwn ati yw fy ngweddi daer yn llinell ac ysbryd yr hen ffyddloniaid. Diolch am ŵyl môr hwylus y tro yma. Tybed a gawn gynhaeaf toreithiog o frwdfrydedd a bendith i'r eglwys ar ôl y gyfres. Boed bendith Duw ar y cyfan. Bu'r moliant o safon uchel hefyd, a Mr. W. J. Jones, A.L.C.M. yn cyfeilio.

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf, Gwasg Gomer, Llandysul.

Defnyddiau Da
Crefftwaith Da

Yr ydym heddiw yn cadw ein henw da am ddeunydd a chrefftwaith a adeiladwyd gennym yn ystod yr 90 mlynedd diwethaf. Yn y cyfnod hwn sefydlwyd 35 o ganghennau drwy Gymru a Gorllewin Lloegr i wasanaethu gwŷr a'u meibion.

HODGES AND SONS (CLOTHIERS) LTD.

WEDI EU TEILWRIO YNG NGHYMRU

The Llandyssul Agricultural Society Ltd.

LLANDYSSUL

Visit us before you buy your—

MANURES, FEEDING STUFFS, LIME, GRAIN, CORN, CONDIMENTS, SEEDS, HARDWARE, DRAPERY, GROCERY, CLOTHING, BOOTS AND SHOES, FURNITURE, ETC.

Deal at your own Society and thus save for yourself all middle profits

---

"Esplanade Cafe"

Proprietor—T. P. GRIFFITHS.

HIGH CLASS CONFECTIONER AND CATERER

MORNING COFFEE, LUNCHEONS AND HIGH TEAS

SMALL PARTIES CATERED FOR

"*Cefnogwch Undodwr*"

SEA FRONT : - : BARRY ISLAND

— COMMERCIAL AND GENERAL PRINTERS —

Within easy access to you if you reside in Glamorgan

Read the—

ABERDARE LEADER

(the paper which goes into every home in the Valley)

All enquiries—

PUGH & ROWLANDS, LTD.

ABERDARE LEADER OFFICES

ABERDARE

J. EDRYD STEPHENS & SONS

ELECTRICAL AND RADIO ENGINEERS

2A, BLUE STREET, CARMARTHEN

25 years experience in all classes of Electrical Undertakings

Recently installed in places of worship :—

FLUORESCENT AND ORDINARY LIGHTING
TUBULAR HEATERS
ORGAN BLOWERS
LIGHTING BY ELECTRIC MAINS AND BY PRIVATE PLANTS

Expert on FARM LIGHTING PLANTS

ENGINES, DYNAMOS, SWITCHBOARDS, MOTORS, COOKERS, WASHING MACHINES, REFRIGERATORS, ETC. ALWAYS IN STOCK

BEST MAKERS RADIO RECEIVERS ALWAYS IN STOCK

MODERN EQUIPMENT FOR RADIO REPAIRS

We employ an expert for every Job

FREE ADVICE AND ESTIMATES

The Shop for Value and Selection. Est. 1875.

E. R. DAVIES (L.S.O. Lond.) & SONS

Phone—3137

WATCHMAKERS
. . JEWELLERS . .
SILVERSMITHS

Private Room and Special Attention given to Engagement and Wedding Parties.

LARGE SELECTIONS OF CUPS AND MEDALS.

1, Wind Street
Llandyssul . . . . Cards.